

Eitem: 04

Teitl: Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwyniad

Ers cyfarfod cyhoeddus diwethaf y Bwrdd, rwyf wedi parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol i siarad am ein rôl, cyfrannu at ein cynlluniau, ffyrdd o weithio, cyflawni ein hymrwymiaadau, mynd i'r afael â materion allweddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a gweld sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i gryfhau llais pobl mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae modd gofyn am fanylion yr holl weithgareddau hyn.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar rai o'r datblygiadau a'r gweithgareddau y bûm i'n rhan ohonynt ers cyfarfod cyhoeddus llawn diwethaf y Bwrdd ym mis Mai 2026. Nid yw'r gweithgareddau na'r datblygiadau allweddol hyn wedi'u trafod yn fanylach ym mhapurau eraill y Bwrdd.

Cryfhau lleisiau pobl
Gofal am ba gost? Effaith aros Ym mis Medi, cawsom ddigwyddiad <i>Gofal am ba gost?</i> yn y Senedd, ble daeth 90 o bobl at ei gilydd, gan gynnwys pobl â phrofiadau bywyd, gofalwyr, sefydliadau cymunedol, llunwyr polisi ac arweinwyr systemau. Mae ‘aros’ fel arfer yn cael ei drafod o safbwynt niferoedd, targedau a rhestrau. Mae'r mesurau hynny'n bwysig, ond yr hyn a ddangosodd y digwyddiad yw cymaint y mae ‘aros’ yn cael effaith: ar iechyd a lles pobl, ar eu teuluoedd, eu harian a'u dyfodol. Gall unrhyw oedi ddwysau'r anghydraddoldebau sy'n bod yn barod. I blant a phobl ifanc, maent yn gallu digwydd ar adegau yn eu bywyd nad oes modd mynd yn ôl atynt. Roedd pobl yn bendant mai dim ond rhan o'r ateb yw lleihau'r amser aros. Maent hefyd yn nodi'r angen am gyfathrebu clir, cymorth tra byddant yn aros, a sicrwydd nad ydynt wedi cael eu hanghofio. Mae hyn yn cyd-fynd â'r hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym ar draws ein gwaith ehangach, ac yr ydym yn defnyddio hyn i sicrhau bod profiadau pobl yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r mesurau perfformiad a ddefnyddir i farnu sut mae gwasanaethau'n gwneud. Gofal mewn coridor, gofal brys a gofal argyfwng, a'r gaeaf Yr ydym yn parhau i godi pryderon am bobl sy'n cael gofal mewn coridor a mannau eraill nad ydynt wedi'u bwriadu ar gyfer rhoi triniaeth. Mae hyn yn datblygu ar y gwaith ar draws Cymru gyfan i edrych ar ofal brys a gofal argyfwng, a hynny yn dilyn pryderon gan gymunedau a phartneriaid lleol.

Yr ydym wedi ymuno â'r alwad i roi diwedd ar roi gofal mewn coridor ac yn aelod o'r gweithgor sy'n datblygu diffiniad cenedlaethol o ofal mewn coridor. Mae Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Cymru yn gweithio i leihau a rhoi diwedd ar hyn, yn y pen draw. Yr ydym ninnau'n canolbwyntio ar yr hyn y mae'n ei olygu i bobl: a ydynt yn derbyn gofal yn ddiogel, gydag urddas a phreifatrwydd? A ydynt yn cael gwybodaeth, ac a all yr amgylchedd ddiwallu eu hanghenion yn briodol?

Mae hyn yn ganolog i sut yr ydym yn meddwl am y gaeaf. Yr ydym yn adolygu cynlluniau gaeaf byrddau iechyd o safbwynt pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gan gynnwys cynlluniau i leihau gofal mewn coridor a gwella'r broses o drosglwyddo cleifion o ambiwlans. Fe wnaethom hefyd friffio Aelodau'r Senedd cyn datganiad llafar y Gweinidog ar barodrwydd am y gaeaf ar 13 Hydref. Byddwn yn gwrandao ar bobl drwy gydol y gaeaf i ddeall sut mae'r cynlluniau hyn yn gweithio yn ymarferol.

Siarad ar ran pobl ym Mhowys

Mae ein gwaith ym Mhowys wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf, yn enwedig mewn ymateb i'r rhaglen Gwell Gyda'n Gilydd a'r newidiadau sydd dan sylw mewn gwasanaethau iechyd lleol.

Yr ydym wedi galw'n gyhoeddus am fwy o eglurder ynghylch y cynigion sy'n effeithio ar wasanaethau ysbyty. Ochr yn ochr â hyn, mae ein tîm rhanbarthol yn cynnal rhaglen ymgysylltu sylweddol fel y gall pobl ddeall y cynigion, gofyn cwestiynau a rhannu eu barn.

Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan yn y byrddau crwn Gwell Gyda'n Gilydd sydd dan sylw, yn ogystal ag ymgysylltu â'r gymuned ehangach. Yr ydym yn dod â'r hyn a glywn yn y sgysiau hyn at ei gilydd ac yn gwneud sylwadau lle bo hynny'n briodol, fel y gallwn roi darlun clir o'r hyn y mae cymunedau'n ei ddweud.

Nid ein gwaith ni yw dweud wrth wasanaethau pa benderfyniad i'w wneud. Ein gwaith ni yw gofalu bod pobl yn deall beth sy'n cael ei gynnig, yn cael cyfle ystyrlon i ddylanwadu ar benderfyniadau cyn iddynt gael eu gwneud, a gweld sut mae eu barn wedi cael ei hystyried.

Fel bod y Bwrdd yn ymwybodol: mae'r gwaith hwn - ochr yn ochr â nifer o newidiadau eraill sydd dan sylw ac sydd eu hangen ar frys mewn gwasanaethau ledled Cymru - yn rhoi pwysau sylweddol ar ein timau rhanbarthol a chenedlaethol. Yr ydym yn rhoi sylw i hyn drwy atgyfnerthu ein rôl a'n cyfrifoldebau o fewn prosesau newid gwasanaeth, drwy gyfathrebu'n glir, yn dryloyw ac yn rhagweithiol, ac wrth gefnogi timau i adolygu eu cynlluniau gwaith fel bod modd eu cyflawni ochr yn ochr â'r dyletswyddau ychwanegol hyn.

Dod â lleisiau pobl i brosesau craffu cenedlaethol

Ym mis Hydref, aeth Llais ati i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a rhoi tystiolaeth lafar i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Iechyd y DU.

Roedd ein tystiolaeth yn ymwneud â'r hyn y gallai'r newidiadau dan sylw ei olygu i bobl yng Nghymru, yn enwedig y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau arbenigol neu drawsffiniol. Gan dynnu ar ein gwaith presennol ar ofal iechyd trawsffiniol, gwnaethom dynnu sylw at rannu gwybodaeth, y cofnod unigol claf arfaethedig, eglurder i bobl sy'n symud rhwng gwasanaethau, a'r angen i'r Bil ystyried cleifion Cymru yn briodol.

Dyma enghraifft dda o sut mae'r hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym trwy ymgysylltu, eiriolaeth ar gyfer cwynion a gwaith rhanbarthol yn gallu llywio gwaith craffu cenedlaethol ar wasanaethau iechyd yn y dyfodol.

Dull gweithredu Cymunedol o'r Cychwyn

Mae Llais yn parhau i gael ei gynrychioli yn y trefniadau cyfeirio a chynghori ar gyfer dull gweithredu Cymunedol o'r Cychwyn, sef rhaglen GIG Cymru sy'n edrych ar sut y gellir cynllunio a darparu mwy o ofal yn agosach at adref.

Yr ydym wedi cael ein cynrychioli mewn cyfarfodydd datblygu a gweithdai pwysig ar y dull gweithredu yma. Gofynnwyd i ni fod yn ffrind beirniadol i'r tîm sy'n datblygu'r dull o ymgysylltu â'r cyhoedd ar y dull gweithredu Cymunedol o'r Cychwyn yn ystod yr hydref a'r gaeaf – ac yr ydym wedi cytuno.

Yn y Grŵp Cyfeirio a Chynghori ym mis Hydref, gofynnwyd yn benodol i Llais rannu negeseuon allweddol o'r sylwadau yr ydym ni'n eu casglu'n gyson gan bobl. Yr ydym yn falch o gael y cyfle yma i roi profiadau pobl wrth wraidd meddylfryd y rhaglen.

Byddwn yn parhau i fod yn ffrind beirniadol annibynnol i Berfformiad a Gwelliant GIG Cymru, gan gefnogi'r rhaglen i gynnwys pobl mewn ffordd ystyrlon wrth iddi ddatblygu.

Iechyd menywod

Dros yr haf, cymerodd Llais ran yn Uwchgynhadledd Iechyd Menywod Llywodraeth Cymru. Roedd yr Uwchgynhadledd yn canolbwyntio ar yr heriau sy'n wynebu iechyd menywod yng Nghymru, gan gynnwys pwysigrwydd gwrando ar fenywod a mynd i'r afael â materion diwylliannol hirdymor sydd wedi gwneud i fenywod deimlo nad ydynt yn cael eu clywed o safbwynt eu hiechyd a'u gofal.

Mae'r themâu hyn yn adleisio'r hyn y mae menywod a theuluoedd yn ei ddweud wrthym mewn agweddau eraill ar ein gwaith, gan gynnwys gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol: am bwysigrwydd urddas, gwrando, cyfathrebu clir a mynediad teg at ofal.

Byddwn yn dod â'r rhain i gam nesaf y gwaith cenedlaethol drwy fynychu grŵp goruchwylio Cymru gyfan ar gyfer Iechyd Menywod.

Iechyd a gofal gwledig

Yn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf, roedd ein pwyslais ar iechyd a gofal gwledig. Yn ogystal â sgwrsio gyda phobl yn y sioe, cafwyd cyfarfod bord gron gyda Gweinidog y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac amrywiaeth o bartneriaid. Trafodwyd y rhwystrau sy'n wynebu pobl mewn cymunedau gwledig wrth iddynt geisio cael iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn dilyn y trafodaethau hynny, cytunais edrych ar sut y gallem weithio gyda phartneriaid sydd hefyd yn casglu profiadau pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig. Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â'n gwaith ym Mhowys, y gorllewin a'r gogledd, a'n pwyslais ehangach ar fynediad, trafnidiaeth a gwasanaethau trawsffiniol.

Ymgysylltu ledled Cymru

Rwyf i ac aelodau eraill o'r Tîm Gweithredol wedi parhau i gynrychioli Llais mewn digwyddiadau cenedlaethol, rhanbarthol a chymunedol. Mae hyn yn cynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, pobl hŷn a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi, cyn-filwyr a chymunedau'r Lluoedd Arfog, partneriaid gofal cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Ym mis Mehefin, cymerodd ein cydweithwyr yn y gogledd ran mewn Digwyddiad Iechyd a Lles i Gyn-filwyr Gogledd Cymru ochr yn ochr â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a sefydliadau sy'n gweithio gyda chyn-filwyr.

Mae'r digwyddiadau hyn yn ein helpu i gryfhau'r berthynas â phartneriaid, clywed gan ystod ehangach o gymunedau, a sicrhau bod mwy o bobl yn gwybod am Llais a sut i rannu eu profiadau gyda ni.

Datblygu ein hunain i gyflawni ar gyfer pobl

Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg

Ym mis Medi, cwblhawyd a chyhoeddwyd ein hail Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg, yn nodi ein cynnydd yn ystod 2025–2026 o ran bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg.

Mae'r adroddiad yn nodi cwmpas y gwaith ar draws Llais i barhau i gryfhau'r ffordd yr ydym yn defnyddio'r Gymraeg a'i chefnogi. Mae hyn yn cynnwys gwella ein systemau fel y gall cydweithwyr gael gafael ar ddewisiadau iaith pobl yn haws a'u cofnodi, monitro galwadau ffôn Cymraeg am y tro cyntaf, cynyddu nifer y swyddi sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg, a pharhau i gefnogi cydweithwyr i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg.

Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg cyn ei gymeradwyo drwy Weithred y Cadeirydd a'i gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd yn ystod 2026–2027, gyda'r cynnydd yn parhau i gael ei fonitro drwy ein trefniadau ehangach ar gyfer cydymffurfio â'r Gymraeg.

Mae ein gwaith gyda'r Gymraeg yn mynd y tu hwnt i gydymffurfio â'r Safonau. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r hyn y mae pobl a chymunedau

Cymraeg eu hiaith yn ei ddweud wrthym am eu profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol, ochr yn ochr â'r hyn yr ydym yn ei ddysgu am ein gwasanaethau ni'n hunain. Fel hyn, gallwn wella'r ffordd yr ydym yn gweithio a'i gwneud hi'n haws i bobl gysylltu â ni a chael cefnogaeth gennym drwy gyfrwng y Gymraeg.